

# Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus dros dro i Gymru

20 Ionawr 2021

## 1. Cyflwyniad

1. Ar 27 Ionawr 2021 gofynnir i'r Senedd enwebu ymgeisydd i'w Mawrhydi'r Frenhines, ar gyfer ei benodi yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro i Gymru ("Ombwdsmon Dros Dro"). Mae'r adroddiad byr hwn yn darparu gwybodaeth gefndir am y dull arfaethedig i lywio'r drafodaeth.

## 2. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2. Penodwyd yr Ombwdsmon presennol yn 2014 o dan delerau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Arweiniwyd y broses benodi gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad, gyda'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cynnal gwrandawriad cyn enwebu gyda'r ymgeisydd a ffafriwyd.

3. Diwygiwyd rôl, cyfrifoldebau a phwerau'r Ombwdsmon yn sylweddol gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf 2019). Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2019 yn darparu:

- mai penodiad y Goron yw rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac fe'i gwneir ar enwebiad y Senedd.
- Rhaid i'r Senedd bennu'r telerau sy'n gymwys i benodiad yr Ombwdsmon, gan gynnwys trefniadau pensiwn a chydnybuddiaeth ariannol.



- c. Saith mlynedd yw tymor swydd unigolyn fel Ombwdsmon, ac nid yw unigolyn a benodir i'r swydd yn gymwys i gael ei ailbenodi.
- d. Byddai rhai anghymwysterau yn atal unigolyn rhag cael ei benodi'n Ombwdsmon, er na fyddai'r anghymwysterau hyn yn ei atal rhag ymgeisio am y swydd, ar yr amod ei fod yn rhoi'r gorau i unrhyw swydd sy'n ei anghymhwysu cyn iddo gael ei benodi.

**4.** Mae penodiadau i swydd gyhoeddus gan y Senedd yn cael eu llywodraethu gan Reol Sefydlog 10. Mae Rheol Sefydlog 10.5 yn dweud bod rhaid enwebu rhywun i gael ei benodi i swydd berthnasol “drwy benderfyniad gan y Senedd.” Mae darpariaethau ychwanegol yn ymwneud â goruchwyllo'r Ombwdsmon yn Rheol Sefydlog 18A. Ein pwyllgor ni, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, yw'r “Pwyllgor cyfrifol” ar gyfer cynghori'r Senedd ar arfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â phenodi Ombwdsmon (Rheol Sefydlog 18A.2 (vi)).

### 3. Penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro i Gymru

**5.** Daw tymor y deiliad swydd presennol i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Mae etholiad y Senedd sydd ar ddod, a'r cyfnod sy'n dilyn cyn i bwyllgorau'r Senedd gael eu sefydlu, yn golygu y byddai angen cwblhau unrhyw broses benodi cyn diddymiad y Senedd ar 7 Ebrill 2021.

**6.** Ym mis Tachwedd 2020, gwnaethom drafod yr opsiynau sydd ar gael i allu cwblhau'r broses mewn pryd. Roedd yr amserlenni i gynnal proses recriwtio lawn ar gyfer y swydd sylweddol yn dynn iawn. Pe byddem wedi cychwyn ar y broses recriwtio bryd hynny, mae'r amser cyfyngedig a'r cyfyngiadau sy'n deillio o'r pandemig yn golygu bod risg sylweddol na châi'r broses recriwtio ei chwblhau mewn pryd i'r Senedd wneud penderfyniad terfynol i argymhell ymgeisydd cyn y diddymiad ar 7 Ebrill 2021.

**7.** Felly gwnaethom benderfynu mai'r dull doethaf a mwyaf pragmatig oedd gwneud penodiad dros dro am gyfnod cyfyngedig. Byddai hyn yn galluogi'r Chweched Senedd i recriwtio Ombwdsmon sylweddol cyn gynted ag y bydd pwyllgorau'r Senedd yn cael eu sefydlu ar ôl yr etholiad, a sicrhau bod Ombwdsmon yn parhau i fod yn y swydd. Ein dewis cyntaf oedd siarad â Nick Bennett, y deiliad swydd presennol, i ddeall a fyddai'n awyddus i gael ei benodi ar sail dros dro am y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Mawrth 2022, penodiad â

therfyn amser penodol o 8 mis yn unig. Cadarnhaodd y byddai'n barod i ymgymryd â'r penodiad dros dro hwn.

**8.** Credwn y bydd y dewis hwn yn sicrhau y bydd digon o amser i gynnal y broses recriwtio, a hynny mewn ffordd a fydd yn fanteisiol o ran nifer ac ansawdd y rhai fydd yn gallu gwneud cais am y swydd. Bydd hefyd, gobeithio, yn ein symud allan o gyfnod lle mae pob corff cyhoeddus, gan gynnwys swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn ymdrin â'r materion uniongyrchol sy'n ymwneud â'r pandemig byd-eang.

**9.** Rydym yn unfrydol ein barn mai hwn yw'r dull mwyaf synhwyrol a phragmatig, ac rydym yn argymhell y dull hwn i'r Senedd.